

Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Elin Jones, AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

24 Awst 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020**

Rwyf heddiw wedi gwneud Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 sy'n dod i rym ar 26 Awst. Ynghlwm ceir copi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi cael ei gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a amlinellwyd ym mharagraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020, rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 23 Hydref er mwyn iddo barhau i gael effaith. Dan yr amgylchiadau rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y gall y Pwyllgor Busnes osod a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiadau gan y pwyllgor neu bwyllgorau cyfrifol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol gwybod fy mod yn bwriadu cynnal trafodaeth cyfarfod llawn ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ar 29 Medi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA


[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.